




# Gweithredoedd â Blaenoriaeth

ar gyfer

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cynllun Rheoli 2010-2015



BRECON BEACONS  
NATIONAL PARK

# Gweithredoedd â Blaenoriaeth

ar gyfer

**Cynllun Rheoli 2010-2015**

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag:

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Plas y Ffynnon,  
Ffordd Cambrian,  
Aberhonddu,  
Powys.  
LD3 7HP

Ffôn: 01874 624437

Ffacs: 01874 622574

Ebost: [ymholiadau@bannaubrycheiniog.org](mailto:yholiadau@bannaubrycheiniog.org)

Safle ar y we: [www.bannaubrycheiniog.org](http://www.bannaubrycheiniog.org)

Mae'r Cynllun Rheoli hwn hefyd ar gael yn electronig trwy adran Cynllunio gwefan APCBB yn:

**[www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/cynllunio/strategaeth-a-pholisiau/crhp](http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/cynllunio/strategaeth-a-pholisiau/crhp)**

Cyhoeddwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. 2010. ©APCBB. Cedwir pob hawl.

Paratowyd gan Dr. Bradley A. Welch, Swyddog Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

Dylunio: Gary Short.

Argraffu: Argraffwyd ar bapur Sidan Gwyn Revive 75 wedi'i ailgylchu, gan Argraffwyr Cambrian, Aberystwyth.

Ffotograffiaeth: ©APCBB, ©Britainonview, ©Laurie Campbell, ©Court Farm, Llanddewi Nant Hodni(t.12),  
©Hawlfraint y Goron, Croeso Cymru(2010), ©Nigel Forster, ©Graham Hilton, ©G.S. Motley(t.18- Tormaen),  
©Stephen Shepherd(TGV), ©Nick Turner, ©Philip Veale.

**Prif ddelwedd y clawr: Llyn Syfaddan gan Philip Veale.**

ISBN: 978-0-905293-21-9

## Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dirwedd arbennig, sy'n arddangos rhinweddau na ellir eu canfod gyda'i gilydd unrhyw le arall. Gyda Pharciau Cenedlaethol eraill yn y Deyrnas Unedig, cafodd ei ddynodi dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Deddf yr Amgylchedd 1995 yw eu fframwaith ar hyn o bryd sy'n manylu ar eu dau ddiben:

- **Cadwraeth a gwelliant:**

*"cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol"*

- **Dealltwriaeth a mwynhad:**

*"hybu cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau rhinweddau arbennig (y Parciau) gan y cyhoedd."*

Mae Egwyddor Sandford wrth wraidd y rhain sy'n haeru uchafiaeth y diben cyntaf dros yr ail mewn achosion o wrthdaro anghymodlon.

Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, wrth ymgymryd â'r ddau ddiben statudol, ddyletswydd statudol i:

*"...feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol (yn y Parc Cenedlaethol trwy weithio'n agos â'r asiantaethau ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y materion hyn)."*

Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (CRhPC) yw'r prif gyfrwng i sicrhau bod darpariaethau statudol y Ddeddf yn cael eu cyflawni. Mae'r CRhPC yn gosod gweledigaeth ar gyfer dyfodol y Parc Cenedlaethol ac yn manylu ar weithredoedd a deilliannau i fynd ar eu trywydd yn ystod y pum mlynedd nesaf i ddwyn y Parc Cenedlaethol yn nes at y weledigaeth hon a rennir: Felly, rôl ganolog y CRhPC yw tywys cyflawniad y ddyletswydd a dibenion statudol, gyda chymorth swyddogaeth cynllunio statudol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB).

Mae APCBB yn hwyluso'r partneriaethau sy'n ofynnol i gyflawni dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol, â'r nod o feithrin teimlad o bwrpas cyfunol ymhlith y rheiny sydd â diddordeb personol yn y Parc Cenedlaethol. Mae gweithrediad llwyddiannus y Cynllun Rheoli yn dasg mae pawb yn ei rhannu, ac, felly, mae angen partneriaethau gweithredol rhwng pawb sy'n gysylltiedig â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu sydd â diddordeb ynddo.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynorthwyo'r broses hon trwy flaenoriaethu adnoddau fel bod modd rhoi strategaethau lleol ar waith i gyflawni deilliannau, gweithredoedd a pholisïau 5 mlynedd yn y tymor byr.

Isod: **Canol y Bannau**



## Beth sy'n Gwneud Bannau Brycheiniog yn Arbennig

### Rhinweddau Arbennig

Parc Cenedlaethol sy'n cynnig **heddwch a thawelwch** â chyfleoedd ar gyfer mwynhad tawel, ysbrydoliaeth, ymlaciad ac adnewyddiad ysbrydol.

Teimlad o **fywiogrwydd ac iechyd da** trwy fwynhau awyr iach, dwr glân, lleoliad gwledig, tir agored a bwydydd a gynhyrchwyd yn lleol yn y Parc.

**Naws am le a hunaniaeth ddiwylliannol** - "Cymreictod" - sy'n cael ei nodweddu gan yr iaith Gymraeg gynhenid, cysylltiadau crefyddol ac ysbrydol, arferion a digwyddiadau unigryw, bwydydd a chrefftau traddodiadol, trefi a phentrefi hanesyddol cymharol ddigyffwrdd, ffermydd teuluol a pharhad o ran arfer sgiliau traddodiadol a ddatblygwyd gan drigolion lleol i fyw ac ennill bywoliaeth yma, fel arferion tir comin a phori.

**Teimlad o ddarganfyddiad** lle mae pobl yn archwilio storiâu a chyfrinachau cudd y Parc fel hanesion achyddol, safleoedd defodol cynhanesyddol, olion aneddiadau gwledig canoloesol, safleoedd diwydiannol cynnar, mythau a chwedlau lleol a thrysorau daearegol er amser cyn cof.

**Gwychder ysgubol a harddwch naturiol anhygoel** y Parc a arsylwyd ar draws amrywiaeth o dirweddau a gysylltwyd yn gytûn, gan gynnwys ceunentydd a rhaeadrau rhagorol, daeareg carst clasurol ag ogofâu a llync-dyllau, tirffurfiau rhewlifol cyferbyniol fel clogwyni a dyffrynnoedd llydan wedi'u cerfio o hen dywodfaen coch a phennau bryniau amlwg â golygfeydd helaeth i bob cyfeiriad.

"Clytwaith" gweithiol, byw o **batrymau, lliwiau a gwedau cyferbyniol sy'n cynnwys** tirweddau amaethyddol sy'n cael eu cynnal yn dda, ucheldiroedd agored, llynnoedd ac afonydd dolennog gyda choetiroedd ar raddfa fach, lonydd gwledig, gwrychoedd a waliau carreg ac aneddiadau gwasgareddig.

**Mynediad helaeth ac eang i amrywiaeth bywyd gwylt a chyfoeth cynefinoedd lled-naturiol** y Parc, fel coetiroedd brodorol, rhostir a glaswelltir, llynnoedd naturiol a chynefinoedd torlannol, gwrychoedd hynafol, palmentydd calchfaen a gorgorsydd gan gynnwys y rheiny o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol.

Yng nghyd-destun y DU, tirweddau daearyddol **garw, anghysbell** a heriol.


**Cefn gwlad bleserus a hygyrch** â chyfleoedd helaeth, eang ac amrywiol i ymgymryd â cherdded, beicio, pysgota, gweithgareddau ar y dŵr a ffurfiau eraill o adloniant neu hamdden gynaliadwy.

**Teimlad cyfarwydd o gymuned** lle mae trefi a phentrefi bach, bugeiliol yn gymharol ddiogel, cyfeillgar, croesawgar ac yn gydweithredol.

# Gweledigaeth

## Gweledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae'r weledigaeth ar gyfer Bannau Brycheiniog Parc Cenedlaethol yn disgrifio uchelgeisiau cyffredinol y Parc i'r 20 mlynedd nesaf. Mae'n cynrychioli barn gyfunol y cyfranogwyr a fu'n rhan o'r broses ymgynghori yn ogystal ag uchelgeisiau a chyfarwyddbau polisi gan gyrrff llywodraethol. Mae'r datganiadau hyn yn ateb y cwestiwn, "Sut ddylai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fod ymhen 20 mlynedd?" a rhoi ffocws i APCBB a'i bartneriaid er mwyn rheoli newydd gyda'i gilydd.



Fan Brycheiniog

### Yn 2030 bydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

- Yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol ac yn genedlaethol am ei werth fel ardal warchoddedig, y mae'r rhyngweithiadau hirhoedlog rhwng pobl a phrosesau natur yn parhau i lunio ei gymeriad.
- Yn cael ei gymeradwyo yn gyffredin oherwydd ei harddwch naturiol, geoamrywiaeth, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol sy'n cael eu cadw a'u gwella trwy ddulliau traddodiadol ac arloesol.
- Yn gyrchfan y mae galw mawr amdano sy'n darparu amrywiaeth anhygoel o gyfleoedd cynaliadwy i bawb ddeall a mwynhau ei heddwch, cymeriad gwledig, y ffordd Gymreig o fyw, teimlad o bellnigrwydd a rhinweddau eraill arbennig.
- Yn wydn, yn agored ac yn ymatebol i newid – yn enwedig newid yn yr hinsawdd – a'i rhanddeiliaid yn rhagweithiol wrth liniaru ac addasu i effeithiau newid annymunol trwy weithredu lleol.
- Yn dibynnu llai ar gadwyni cyflenwi allanol sy'n arwain at fwy o ddiogelwch bwyd ac ynni yn lleol, gwell ansawdd bywyd, cydlynad cymunedol a chadwraeth cyfalaf naturiol.
- Yn dirwedd fyw lle gall pobl ennill bywoliaeth o'r tir mewn dull arloesol a chynaliadwy, er enghraifft trwy ffermio, ond hefyd mewn ffyrdd newydd fel trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy er budd yr amgylchedd, yr economi a chymunedau lleol.
- Yn cael ei reoli yn gynaliadwy trwy bartneriaethau gweithredol ymhlith rhanddeiliaid y Parc fel ei fod yn parhau i fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth a mwynhad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Yn cael ei fonitro dros y tymor hir i wella ymarfer polisi a rheoli yn y dyfodol.



Drain Gwynion



Glöyn trilliw bach

## Deilliannau

Eir ar drywydd y deilliannau canlynol i wireddu'r weledigaeth hon:

<b>Cadw a Gwella Treftadaeth Naturiol a Diwylliannol y Parc</b>
Bydd cymeriad prydfferth ac amrywiol y dirwedd yn parhau i gael gofal a rheolaeth dda. Bydd newid o ran tirwedd yn cael ei reoli i fod er budd bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol y Parc.
Bydd y comins ucheldirol yn cael eu rheoli er budd cadwraeth cynefin, cynhyrchedd pori, nodweddion archeolegol, ynni, hygyrchedd i'r cyhoedd a darpariaeth buddion eraill i'r cyhoedd.
Bydd coetiroedd yn cael eu hintegreiddio ag agweddau eraill ar reoli cefn gwlad. Byddant yn cael eu hymestyn a'u hamrywio lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol. Byddant yn cael eu rheoli yn dda o ran eu gwerthoedd tirwedd, economaidd, ecolegol a chymdeithasol ac fel adnodd adnewyddadwy.
Bydd rhanddeiliaid y Parc yn annog bioamrywiaeth i ffynnu ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Bydd gwell cysylltedd o ran cynefinoedd a rheolaeth ragorol ar bob safle cadwraeth natur a ddynodwyd yn statudol a heb fod yn statudol yn gwella cyflwr ac amrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd yn y Parc.
Bydd arbrofi â dulliau newydd o ymdrin â datblygu cynaliadwy a chadwraeth amgylcheddol ar diroedd mae APCBB yn berchen arnynt yn darparu enghreifftiau o ymarfer gorau.
Bydd patrwm traddodiadol tir amaethyddol a'i gynefinoedd a nodweddion hanesyddol a nodweddiadol yn cael eu cadw a'u gwella, gan ddarparu'r sail ar gyfer economi amaethyddol sy'n ffynnu.
Bydd adnoddau awyr, dŵr a phridd yn cael eu defnyddio yn gynaliadwy i integreiddio anghenion bywyd gwyllt â galwadau defnydd dynol. Bydd eu hansawdd yn cael ei godi i safon uchel fel bo'n briodol, a'i gynnal.
Bydd nodweddion daearegol a geomorffolegol y Parc, sy'n enwog yn rhyngwladol, yn cael eu cadw a'u dehongli.
Bydd adeiladau a phatrymau aneddiadau hanesyddol y Parc yn cael eu diogelu a'u gwella. Bydd datblygiadau newydd yn cadw at egwyddorion dylunio cynaliadwy ac yn cyflenwi treftadaeth adeiledig y Parc sydd eisoes yn bodoli.
Bydd tirweddau hanesyddol a nodweddion archaeolegol yn cael eu diogelu, eu cadw a'u gwella.
Bydd traddodiadau lleol, digwyddiadau cymunedol a'r iaith Gymraeg yn ffynnu ac yn esblygu fel rhan o ddiwylliant byw sy'n anwylo'r gorffennol ac yn cofleidio'r dyfodol.



## Deall a Mwynhau Rhinweddau Arbennig y Parc

Bydd gan bawb cyfleoedd helaeth i ddysgu am rinweddau arbennig y Parc a'u profi. Byddant yn deall pam bod y dirwedd fyw hon yn gyrchfan twristiaeth gynaliadwy ac ardal wedi'i diogelu sy'n bwysig yn rhyngwladol.

Bydd y teimlad o heddwch, tawelwch a phellenigrwydd a brofir yn y Parc Cenedlaethol drwyddo draw yn cael ei gadw a'i wella.

Bydd gan bobl well ddealltwriaeth o gyfraniadau geoamrywiaeth a bioamrywiaeth at y dirwedd, yr economi a'r amgylchedd.

Bydd yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei ddeall a'i werthfawrogi yn well fel cyswllt pwysig ymhlith cenedlaethau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Bydd pobl yn dod i'r Parc i fwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau cynaliadwy. Byddant yn deall ac yn ymddwyn yn gyfrifol.

Bydd y cyfleusterau, y wybodaeth a'r dehongliad a ddefnyddir i wella profiadau pobl o'r Parc yn rhagori ar eu disgwyliadau. Bydd amrywiaeth llawn o ddulliau dehongli, addysg a chyfathrebu yn cael eu defnyddio.

Bydd gan bobl well ddealltwriaeth o oblygiadau newid yn yr hinsawdd ar eu bywydau bob dydd a sut gallant liniaru ac addasu i'w effeithiau.

Bydd y Parc yn cael ei edmygu'n fawr fel lle i ddilyn trywydd ffyrdd iach o fyw, ymlacio ac adnewyddu ysbrydol fel "Lle i Enaid Gael Llonydd."

Bydd gan bawb gyfle cyfartal i fwynhau a deall harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc trwy rwydwaith integredig o lwybrau. Bydd hyder cyhoeddus o ran ble i hamddena yn uchel.







Siopau lleol



Côr Meibion Aberhonddu



Gŵyl Fwyd y Fenni

## Lles Economaidd a Chymdeithasol y Cymunedau Lleol

Bydd pobl y Parc, yr iaith Gymraeg a threftadaeth Gymreig ac economi cyfoethog yn parhau i ffynnu, gan gefnogi cymunedau iach a'r amgylchedd wrth roi croeso i ymwelwyr.

Bydd gan gymunedau'r Parc falchder yn eu lle a theimlad o berchnogaeth ar y Parc.

Bydd mentrau cludiant cynaliadwy yn gwella hygyrchedd ar draws y Parc wrth leihau'r ddibyniaeth ar gerbydau modur preifat.

Bydd diwydiant twristiaeth gynaliadwy ragorol yn cefnogi'r Parc, sy'n cyfrannu at fwynhad y cyhoedd o rinweddau arbennig yr ardal ac at yr economi lleol.

Bydd tai fforddiadwy o bob math sy'n gynaliadwy, o ansawdd da, ac wedi'u dylunio'n dda yn hygyrch i gymunedau'r Parc.

Bydd cymysgedd o ffermio, busnesau bach gwledig, busnesau sy'n defnyddio tir yn draddodiadol, sefydliadau rheoli tir, gwasanaethau lleol a diwydiannau twristiaeth gynaliadwy yn cynyddu potensial economaidd rhinweddau arbennig y Parc gymaint â phosibl wrth hybu cadwraeth adnoddau.

Bydd gan unigolion fynediad at gyfleoedd cyflogaeth ac amwynderau modern sy'n briodol i gyd-destun dibenion a dyletswydd y Parc.

Bydd cyfraniadau tirweddau hanesyddol, gwahanolrwydd lleol ac adeiladau cynhenid at yr economi a'r amgylchedd yn cael eu cydnabod a'u hybu.

Bydd cymunedau a busnesau lleol yn arbrofi â dulliau newydd o ymdrin â lleihau gwastraff, cynhyrchu bwyd yn lleol trwy erddi marchnad, ailgylchu effeithiol, defnyddio llai o ynni a chynhyrchu a defnyddio ynni adnewyddadwy ac yn mabwysiadu'r dulliau hyn.

Bydd cymunedau a busnesau'r Parc yn lleihau eu dibyniaeth ar danwydd ffosil wrth leihau eu cyfraniadau at newid yn yr hinsawdd fyd-eang gymaint â phosibl.

Bydd cymunedau lleol yn sefydlu prosiectau cydweithredol ar gyfer cynhyrchu bwyd, cynhyrchu bwyd, cynhyrchu ynni a theithio sy'n cynyddu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gymaint â phosibl i bawb.

Bydd prosiectau datblygu ac adnewyddu newydd yn y Parc yn darparu enghreifftiau o ymarfer gorau ar gyfer Cymru mewn perthynas â lliniaru newid yn yr hinsawdd a strategaethau addasu.

Bydd pawb yn deall ac yn gwerthfawrogi sut mae'r broses gynllunio'n helpu i gyflawni dibenion a dyletswydd y Parc.

Bydd pawb sydd â diddordeb ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn deall ac yn cofleidio gweledigaeth y lle arbennig hwn ac yn cydweithio i'w chynnal.

# Gweithredoedd â Blaenoriaeth

## Y Fframwaith

Mae'r amcanion strategol a drafodwyd ym Mhennod 7 wedi gosod dyheadau o ran rheoli'r Parc ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a thu hwnt. Mae llawer o'r rhain wedi cael eu llunio yn weithredoedd mwy penodol fel rhan o broses ymgynghori'r CRhPC. Yna cafodd y nifer fawr o weithredoedd a gynhyrchwyd eu blaenoriaethu, eto trwy ymgynghori, i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau cyfyngedig partneriaid a cheisio cyflawni deilliannau a fydd yn helpu i wireddu uchelgeisiau tymor hir.

Daeth chwe thema, ar sail grwpiau tebyg, i'r amlwg o'r broses ymgynghori a ddefnyddiwyd i ddatblygu a blaenoriaethu gweithredoedd ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Dyma'r themâu:

- **Rheoli Tirweddau'r Parc i Fanteisio i'r Eithaf ar Fuddion Cyhoeddus a Chadwraeth.**
- **Cadw a Gwella Bioamrywiaeth.**
- **Darparu Cyfleoedd Mynediad a Hamdden Awyr Agored i Bawb.**
- **Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o'r Parc.**
- **Adeiladu a Chynnal Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy.**
- **Datblygu Economaidd Cynaliadwy.**

Mae'r themâu hyn yn cael eu rhannu yn is-themâu, ac yna'u rhannu yn feysydd ffocal o setiau tebyg o weithredoedd, fel y rheiny sy'n gysylltiedig â "rheoli effaith ymwelwyr" neu "reoli'r amgylchedd hanesyddol" dan y thema Rheoli Tirweddau'r Parc.

Mae pob maes ffocal yn cynrychioli'r blaenoriaethau cyffredinol a nodwyd trwy ymgynghori a chyfraniad rhanddeiliaid. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi gweithredoedd a fydd yn cynorthwyo wrth gyflawni deilliannau dymunol ac amcanion strategol yn y pum mlynedd nesaf, rhwng cyfnodau adolygu'r Cynllun Rheoli.



Mynydd Illtyd

## Y Gweithredoedd

Mae pob un o'r chwe thema yn y Cynllun Gweithredu yn cynnwys: disgrifiad byr pam fod y thema yn bwysig i reoli'r Parc, gweithredoedd â blaenoriaeth sy'n ofynnol i wneud cynnydd digonol tuag at y deilliannau yn y pum mlynedd nesaf, a phwy sy'n ofynnol i ddarparu'r gweithredoedd, a gweithredoedd ychwanegol i'w hystyried. Nid yw'r rhestr o bartneriaid yn hollgynhwysol; mae'n cynnwys y prif bartion cyfrifol a dylai gynnwys pawb sydd mewn sefyllfa i sicrhau bod y gweithredoedd yn cael eu cyflawni yn effeithiol. Mae gweithredoedd a nodwyd gan rhanddeiliaid fel rhai pwysig ond na chafodd eu cynnwys ar y rhestr â blaenoriaeth wedi cael eu cynnwys fel "gweithredoedd ychwanegol i'w hystyried." Gellir cyflawni'r gweithredoedd hyn ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad â'r gweithredoedd â blaenoriaeth pan a phryd mae adnoddau ar gael. Darperir manylion yn y tablau isod.

Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau fel rhan o adolygiad pum mlynedd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i grynhoi mewn adroddiadau blynyddol.

# Gweithredoedd â Blaenoriaeth: Rheoli Tirweddau'r Parc

## Rheoli tirweddau'r parc i fanteisio i'r eithaf ar fuddion cyhoeddus a chadwraeth

### Pam fod hyn yn bwysig?

Mae tirweddau'r Parc yn cynnwys cydrannau naturiol a diwylliannol. Mae ecosystemau amaethyddol ac ecosystemau eraill, tirffurfiau amrywiol, nodweddion daearegol, yr amgylchedd hanesyddol a threfi a phentrefi – ymhlith elfennau eraill – yn cyfrannu at yr harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol mae diben cyntaf y Parc Cenedlaethol yn cyfeirio ato a'i rinweddau arbennig. Yn wir, mae dynodiad y Parc Cenedlaethol yn cyflwyno'r statws uchaf o amddiffyniad y DU o ran tirwedd a harddwch golygfaol. Ynghyd â bioamrywiaeth, mae gan yr elfennau hyn werth yn eu rhinwedd eu hunain ac maent yn darparu buddion gwerthfawr i gymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae'r tirweddau hyn yn cynnwys y cyfalaf naturiol sy'n sicrhau ffyniant a lles cenedlaethau'r dyfodol, os byddant yn cael gofal priodol.

Ond nid yw tirweddau'r Parc yn statig. Yr un grymoedd naturiol a anthropogenic sydd wedi cyfrannu at dirweddau sydd eisoes yn bodoli ac sy'n dylanwadu ar eu ffurf yn y dyfodol, mewn ffyrdd dymunol a heb fod yn ddymunol. O ystyried maint yr effaith sy'n gysylltiedig â rhaid o'r newidiadau hyn, fel newid yn yr hinsawdd, efallai y bydd effaith niweidiol ar rinweddau arbennig y Parc. O ganlyniad, mae angen rheolaeth weithredol i liniaru prosesau annymunol a chynyddu llwyddiant ymdrechion cadwraeth a darpariaeth buddion i'r cyhoedd gymaint â phosibl. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei rannu ar draws yr amrywiaeth eang o randdeiliaid sy'n ymwneud â dyfodol y Parc a'i dirweddau amrywiol, gan bwysleisio ymhellach yr angen i gael dull o weithredu integredig a chydlynol mewn perthynas â rheoli tirwedd. Bydd dull cydweithredol o weithredu yn cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant parhaus.



Sgwd Gwladus



Llyn y Fan Fach



Eglwys y Santes Fair, Capel y Ffin

Maenhir Maen Llia

Thema 1: Rheoli tirweddau'r Parc i fanteisio i'r eithaf ar fuddion cyhoeddus a chadwraeth

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol</b>			
<b>Diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol y Parc</b>	Datblygu strategaeth ar gyfer adeiladau mewn perygl.	APCBB	Cadw, YCAau, CBHC, Awdurdodau Unedol
	Cyflawni un (1) cynllun treftadaeth tirwedd drefol.	APCBB	Cadw, YCAau, CBHC, Awdurdodau Unedol
	Cyflawni'r swyddogaeth adeiladau mewn perygl yn y Gwasanaeth Cynllunio.	APCBB	Cadw, YCAau, CBHC, Awdurdodau Unedol
	Datblygu a chyflawni cynllun rhoi ar waith o waith prosiect positif i ymchwilio, cadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol.	Cadw, YCAau, CBHC, Awdurdodau Unedol, APCBB	PTA/STB
<b>Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amgylchedd hanesyddol y Parc.</b>	Cynhyrchu cyfres o ganllawiau ar gyfer treftadaeth adeiledig.	APCBB	Cadw, YCAau, CBHC, Awdurdodau Unedol
	Datblygu strategaethau addysg, dehongli a gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth, mwynhad a dealltwriaeth o amgylchedd hanesyddol y Parc.	Cadw, YCAau, CBHC, STB/PTA	APCBB, Cymunedau lleol, Awdurdodau Unedol
<b>Datblygu agenda ymchwil a rheolaeth ar gyfer amgylchedd hanesyddol y Parc Cenedlaethol</b>	Cyflawni dau brosiect ymchwil ar gyfer yr amgylchedd adeiledig yn y Parc Cenedlaethol wedi'u tywys gan Gyflwyno Fframwaith Ymchwil ar gyfer Archaeoleg Cymru fframwaith ymchwil.	Cadw, YCAau, CBHC, Awdurdodau Unedol	APCBB, STB
	Datblygu strategaeth ranbarthol i ddiogelu, rheoli a monitro amgylchedd hanesyddol y Parc.	Cadw, YCAau, CBHC, Awdurdodau Unedol, APCBB	PTA/STB



Amser cneifio



Adfer cors



Byrnu gwaith yn Llanddewi Nant Hodni

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol (parhad)</b>			
<b>Nodi a gwella rôl ffermio wrth reoli tirwedd y Parc</b>	Datblygu mecanweithiau a'u rhoi ar waith ar gyfer mynd ati i gynnwys ffermwyr ifanc wrth wneud penderfyniadau a rheoli tirwedd y Parc Cenedlaethol.	Cffl, APCBB	Ffermwyr Lleol, Cymdeithasau Cominwyr/Porwyr, CLA, UAC, UCA
	Datblygu prosiect arddangos i fynd i'r afael ag o leiaf un o'r materion allweddol sy'n wynebu dyfodol ffermio sy'n cynnwys ffermwyr lleol yn uniongyrchol - beirniaid a chefnogwyr y Parc Cenedlaethol.	CLA, UAC, UCA, Cffl, APCBB	Ffermwyr Lleol, Cymdeithasau Cominwyr/Porwyr
	Archwilio gwell ffyrdd o ddefnyddio Grŵp Rhanddeiliaid Amaethyddol y Parc Cenedlaethol wrth ddatblygu datrysiadau i fynd i'r afael â materion sy'n wynebu cymuned ffermio'r Parc.	CLA, UAC, UCA, Cffl, APCBB	Ffermwyr Lleol, Cymdeithasau Cominwyr/Porwyr
<b>Datblygu agenda ymchwil a rheolaeth ar gyfer amgylchedd naturiol y Parc Cenedlaethol</b>	Sicrhau arian a rhoi un prosiect rheoli tir mawr; ar sail ardal ar waith.	APCBB, YBGau	Cymdeithasau Ffermio, Cadw, YACau, CBHC, YC, CCGC, YBGau, Cymunedau Lleol, DC, AAC, Twristiaeth a Busnesau Eraill, Stad Cnewr, Prifysgolion, CYAC, C3W
	Rhoi ar waith dull tirweddau byw o ymdrin â rheoli tirweddau, cynefinoedd a bywyd gwylt.	YBGau	Sefydliadau Ffermio, Cadw, YACau, CBHC, YG, CCGC, APCBB, Cymunedau Lleol, DC, AAC, YCG, Twristiaeth a Busnesau Eraill



Bugeilio ger Pontsenni

Cronfa Ddŵr Pontsticill

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Datblygu agenda ymchwil a rheolaeth ar gyfer amgylchedd naturiol y Parc Cenedlaethol (parhad)</b>	Cynhyrchu prosiectws ymchwil ar gyfer y Parc Cenedlaethol sy'n cael ei gefnogi gan Ganolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru.	APCBB, CYAC	Sefydliadau Ffermio, YACau, CCGC, AAC, Prifysgolion, LICC
	Sefydlu fframwaith monitro ar gyfer ffotograffiaeth pwynt sefydlog a synhwyro pell.	APCBB	YBGau, GGA, CCGC, CHBC, YACau, STB/PTA
	Rheoli tir mae'r APC yn berchen arno.	APCBB	Ffermwyr Lleol, Tirfeddiannwyr Cyfagos, CCGC, Cymunedau Lleol
	Pennu'r gwaelodlin a llygredd amgylcheddol yn y PC yn unol â Strategaeth Amgylcheddol Cymru. Cyhoeddi diweddariadau ym mhob Adroddiad Cyflwr y Parc olynol.	AAC, Awdurdodau Unedol	APCBB, CCGC
	Blaenoriaethu dealltwriaeth o reolaeth adnoddau dŵr yn y PC.	AAC, DC, Adnoddau Dŵr Eraill	APCBB, Awdurdodau Unedol
<b>Manteisio i'r Eithaf ar Fudd Cyhoeddus</b>			
<b>Manteisio i'r eithaf ar fuddion cynlluniau lefel mynediad ac uwch Glastir yn y Parc Cenedlaethol</b>	Gweithio'n agos â Swyddogion Prosiect Glastir a Chyswllt Ffermio i wella'r cyfleoedd i ffermwyr y Parc ddarparu buddion i'r cyhoedd yn y cefn gwlad, yn enwedig darparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.	LICC, Cyswllt Ffermio, APCBB	Sefydliadau Ffermio, CCGC, PTA, PONT
	Denu buddsoddiad newydd ar gyfer rheoli tirwedd y Parc i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.	APCBB, Tirfeddiannwyr	LICC, CCGC, AAC, CCC, DC, YG, PTA/STB
	Cynorthwyo wrth greu Cymdeithasau Porwyr statudol.	Sefydliadau Ffermio, Cominwyr/Porwyr, LICC, CCGC	APCBB



Amser wyna



Cwm Tawe



Ymweliad ysgol, Dyffryn Wysg

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o Dirweddau'r Parc</b>			
<b>Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd ffermio wrth reoli'r Parc a'r materion sy'n wynebu dyfodol ffermio</b>	Datblygu a darparu dulliau o addysgu trigolion ac ymwelwyr y Parc Cenedlaethol am bwysigrwydd ffermio i'w bywydau bob dydd a'r materion sy'n wynebu dyfodol ffermio.	CLA, UAC, UCA, CFFI, CCGC, APCBB	Ffermwyr Lleol
	Datblygu a rhoi ar waith dulliau ar gyfer addysgu ffermwyr yn y Parc am y materion sy'n wynebu dyfodol ffermio a'u datrysiadau posibl, fel ymgyrch UCA "Why Farming Matters."	CLA, UAC, UCA	APCBB, Ffermwyr Lleol
	Creu partneriaeth i gynyddu cydnabyddiaeth gyhoeddus o werth ffermio wrth gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.	CLA, UAC, UCA, APCBB	Ffermwyr Lleol, Cymdeithasau Cominwyr/Porwyr
<b>Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fywyd gwylt, tirwedd ac amgylchedd naturiol y Parc</b>	Rhoi Strategaeth Ddehongli APCBB ar waith.	APCBB	Awdurdodau Unedol, Cadw, CCC, DC, DP, CCGC, Busnesau a Chymunedau Lleol, PTA/STB
	Rhoi strategaethau addysg gorfforaethol ar waith i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fywyd gwylt, tirwedd ac amgylchedd y Parc.	YBGau, CCGC, CCC, DC, AAC, UCA, DP, PTA/STB	APCBB
	Darparu rhaglen addysg amgylcheddol APCBB yn flynyddol.	APCBB	YBGP, CHI, DC, DP, PTA/STB



Coetir ym Mro'r Sgydau

Ger Mynydd Du

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Rheoli Coetiroedd</b>			
<b>Amddiffyn a rheoli coetiroedd y Parc</b>	Rhoi Strategaeth Coetiroedd Gwell i Gymru ar waith yn y Parc.	CCC	APCBB, CCGC, AAC
	Archwilio'r posibilrwydd o gynnwys Coed Cymru wrth reoli coetiroedd y Parc.	Coed Cymru	APCBB
	Ehangu coetiroedd brodorol gan gynnwys cynefinoedd coetir ar ffermydd tuag at y llethrau uwch lle mae coedwigoedd eisoes yn gorwedd.	CCC	Tirfeddiannwyr Lleol, Ffermwyr, APCBB
	Cynnal coedwigoedd mewn ardaloedd priodol wrth eu hintgreiddio yn y dirwedd trwy egwyddorion dylunio coedwig gynaliadwy.	CCC	Tirfeddiannwyr Lleol, APCBB
	Adfer cynefinoedd a gydnabyddir yn rhyngwladol mewn coetiroedd, fel gorgorsydd ucheldirol, rhostir ucheldirol a choed derw ucheldirol, lle mae'r budd amgylcheddol yn fwy na gadael yr ardal yn goediog, a lle mae'r hyfywdra a photensial yn bodoli.	CCC	Tirfeddiannwyr Lleol, APCBB, CCGC, YBGau, PTA/STB
	Ymarfer technegau coedwigaeth orchudd ddi-dor mewn coedwigoedd addas lle mae rhywogaethau coed priodol, wyneb-wedd, oed, presgripsiynau rheoli'r gorffennol a phriddoedd yn caniatáu.	CCC	Tirfeddiannwyr Lleol, APCBB
	Hwyluso cytundebau coetir cymunedol o fewn cyrraedd hwylus i drefi a phentrefi sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i gyfrannu at CMC lleol a gwell teimlad o iechyd a lles.	CCC	Cynghorwyr Lleol, Busnesau Lleol, APCBB





Bro'r Sgydau



Sgwd Ddwli

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Rheoli Effeithiau Ymwelwyr</b>			
<b>Rheoli effeithiau ymwelwyr ar dirweddau, cynefinoedd a bywyd gwylt y Parc</b>	Rhoi'r Cynllun Rheoli Rhaeadrau ar waith.	APCBB	CCGC, CCC, Busnesau Twristiaeth, Grwpiau o Ddefnyddwyr
	Datblygu a hybu un cod ymddygiad fesul ardal (ar sail ardal neu weithgaredd) i fynd i'r afael ag ardaloedd neu weithgareddau heb eu cwmpasu.	APCBB	CCGC, CCC, Busnesau Twristiaeth, Grwpiau o Ddefnyddwyr
	Adolygu'r Strategaeth Erydiad Ucheldiroedd erbyn Rhagfyr 2011.	APCBB	Sefydliadau Ffermio, Cadw, YACau, CBHC, CCGC, Cymunedau Lleol, DC, AAC, Twristiaeth a Busnesau Eraill
<b>Rheoli Geoamrywiaeth</b>			
<b>Amddiffyn a rheoli geoamrywiaeth y Parc</b>	Cynnal archwiliad o Safle Daearegol a Geomorffaid Pwysig Rhanbarthol (SDGPRh) De-ddwyrain Cymru.	ADP	APCBB, PTA
	Cynllunio a chynnal gwaith prosiect cadwraeth fesul safle ar safleoedd o ddiddordeb daearegol.	CCGC ac APCBB	FLP
	Monitro SoDdGA/ACA/AGAoedd â phwysigrwydd daearegol a gweithredu i sicrhau eu statws cadwraeth ffafriol.	CCGC	APCBB, PTA



Hen Dywodfaen Coch



Teithiau cerdded wedi'u tywys yn y Geoparc



Craig y Ddinas



Plu'r Gweunydd



Cnocell y cnau

### Gweithredoedd ychwanegol i'w hystyried

Datblygu consensws cyhoeddus ar gyfer ailgyflwyno'r afanc Ewropeaidd ( <i>Castor fiber</i> ) i'r Parc ac felly'r buddion dilynol byddai hyn yn achosi i ecosystemau gwlyptir a rheolaeth ddŵr.
Datblygu mynegai electronig sy'n nodi setiau data naturiol a hanesyddol sy'n berthnasol i reolaeth PC ac sy'n dal y wybodaeth. Bydd y mynegai'n cynnwys gwerthusiad o'r setiau data (metadata) yn ogystal â bod ar gael yn gyhoeddus.
Adfer a gwella cysylltedd cynefinoedd ar draws tiroedd comin ucheldirol cydgyffyrddol y Parc.
Cydlynu'r gwaith o gasglu, rhannu, storio ac adalw'r wybodaeth sy'n ofynnol ar ran partneriaid i gyflawni Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys cofnodion hanesyddol, ffotograffau o'r awyr a data GIS.
Datblygu cynllun rheoli rhywogaethau ymledol, yn canolbwyntio ar gynefinoedd llinellol a rheoli rhedyn.



Fan Hir

# Gweithredoedd â Blaenoriaeth: Bioamrywiaeth

## Cadw a gwella bioamrywiaeth

### Pam fod hyn yn bwysig?

Mae bioamrywiaeth yn cwmpasu pob agwedd ar y byd sy'n fyw, o amrywiadau genetig ymhlith organebau unigol i wahaniaethau rhwng rhywogaethau a chynefinoedd. Ynghyd â chael ei gwerth cynhenid ei hun, mae pobl yn dibynnu ar fioamrywiaeth ar gyfer bwyd, deunyddiau adeiladu, cynhyrchion synthetig, tanwydd, yr ocsigen mae pobl yn anadlu, hyd yn oed ar gyfer mwynhau ac adnewyddu ysbrydol. Mae poblogaeth fyd-eang sy'n cynyddu a mecaneiddio wedi dwysau gofynion ar fioamrywiaeth wrth symleiddio a dryllio perthnasau sy'n gymhleth fel arall. Gall colli un rhywogaeth arwain at farwolaeth rhywogaethau eraill a cholled cynefinoedd cyfan o bosibl. Mae'r materion hyn yr un mor berthnasol i'r Parc Cenedlaethol ag i'r gymuned ehangach.

Y dasg sy'n wynebu rheolwyr y Parc Cenedlaethol yw cadw ei adnoddau biolegol a'u gwella lle bo hynny'n bosibl. Mae polisiau rhyngwladol a chenedlaethol yn gofyn bod bioamrywiaeth yn un o brif ystyriaethau pob sector o reolaeth Parc Cenedlaethol. Ni fydd y dasg hon yn hawdd oherwydd elfennau ansicr newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, a fydd yn gwaethygu effeithiau pwysau eraill ar fioamrywiaeth. Y ffordd orau ymlaen yw rhoi ar waith dull ar raddfa tirwedd i fynd i'r afael â rheoli bioamrywiaeth sy'n ystyried anghenion cynefinoedd a rhywogaethau unigol wrth gymryd golwg ehangach ar eu sefyllfa yn y dirwedd mewn perthynas â'i gilydd a'u rhyng-gysylltiadau. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy gydweithio â holl bartneriaid bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol.



Clocwedd o'r chwith uchaf: Glas y dorlan, Ystum lleiaf, Pathew Cyll, Tormaen Glasgoch, Tawddrudd Crynddail, Dyfrgi.



Llyffant Cyffredin



Eithin

Thema 2: Cadw a gwella bioamrywiaeth

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Amddiffyn a rheoli bioamrywiaeth y Parc</b>	Rhoi ar waith rhaglen o weithredu ar sail safleoedd sy'n gysylltiedig â CGBLI.	APCBB, YBGau	Tirfeddiannwyr, CCGC, YG, CCC, DC, GGA
	Darparu hyfforddiant a chynghor rheoli i dirfeddiannwyr.	YBGau	Tirfeddiannwyr, DP, GGA, APCBB
	Rheoli gwarchodfeydd natur er budd bywyd gwyllt a phobl.	YBGau	CGCC, APCBB
	Adfer a gwella cysylltedd cynefinoedd ar draws dyffrynnoedd afon.	YBGau	Tirfeddiannwyr, CCGC, APCBB, YG, CCC, DC, DP, GGA
<b>Datblygu a gweithredu prosiectau bioamrywiaeth cymuned er budd y cyhoedd a bywyd gwyllt</b>	Cyflawni rhaglen flynyddol o weithgareddau i wirfoddolwyr sy'n targedu gweithredu ar fioamrywiaeth.	APCBB	YBGau
	Cysylltu buddion bioamrywiaeth trwy weithredoedd cymdeithasol-economaidd lleol trwy hybu prosiectau cymunedol (e.e., PONT, YCG).	Partneriaid Grŵp Llywio CGBLI, APCBB	BIS, Cymunedau Lleol, Tirfeddiannwyr, PONT, YCG, YBGau, Awdurdodau Unedol, PTA/STB
<b>Rhoi rhaglenni monitro ac ymchwil ar waith i gynorthwyo wrth reoli bioamrywiaeth y Parc</b>	Ymgymryd â gwaith monitro safleoedd ar safleoedd CGBLIC allweddol.	APCBB, GGA	Tirfeddiannwyr, YBGau, PTA/STB, CCGC, AAC, Awdurdodau Unedol
	Sicrhau bod gwybodaeth am fioamrywiaeth o'r broses rheoli datblygiad ar gael.	APCBB	GGA, Awdurdodau Unedol
	Datblygu monitro cynefinoedd allweddol, priddoedd a dŵr:	CCGC, AAC, YBGau, Prifysgolion	Tirfeddiannwyr, APCBB, GGA, PTA/STB, Awdurdodau Unedol



Mursennod Gleision Cyffredin



Glöyn trilliw bach

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fioamrywiaeth y Parc	Dylanwadu ar bolisiâu i sicrhau nad yw cynigion datblygu yn y dyfodol yn niweidio bioamrywiaeth gyfoethog y Parc Cenedlaethol mewn unrhyw ffordd.	YBGau	APCBB
	Adrodd ar y gwaith cadwraeth bioamrywiaeth sy'n digwydd yn y Parc Cenedlaethol, a'i hybu, gan ddefnyddio System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth.	YBGau	APCBB, Partneriaid Grŵp Llywio CGBLI

#### Gweithredoedd ychwanegol i'w hystyried

Parhau i gefnogi grwpiau o arbenigwyr rhywogaeth.
Datblygu dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth mewn llyfoedd gwaith eraill (e.e., mynediad, twristiaeth).



Barcud Coch



Dôl gwair, Llangasty

# Gweithredoedd â Blaenoriaeth: Mynediad a Hamdden

## Darparu cyfleoedd mynediad a hamdden awyr agored

### Pam fod hyn yn bwysig?

Mae darparu cyfleoedd mynediad a hamdden awyr agored i bawb wrth galon ail ddiben Parciau Cenedlaethol y DU. Mae'r ddeddfwriaeth hon a pholisiau cefnogol eraill mewn lle i sicrhau bod pawb yn gallu cyrchu a mwynhau'r rhinweddau sy'n gwneud Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn arbennig, waeth beth fo'u hoed, ethnigrwydd, gallu neu ffactorau eraill. Wrth wneud hyn, gall pobl gael budd o well iechyd, lles, profiad a dysgu. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael budd trwy gynydd mewn cefnogaeth, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth mewn perthynas â rheoli'r dirwedd hon sydd wedi'i diogel.

Mae Bannau Brycheiniog Parc Cenedlaethol yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau, ac mae camau'n dal i gael eu cymryd i wella mynediad a hamdden lle bo hynny'n ymarferol. Yr her ar gyfer rheolwyr yw parhau i ddarparu'r cyfleoedd hyn wrth rwystru colli'r adnoddau y bydd pobl yn dod i'r Parc Cenedlaethol i fwynhau neu gael budd arall ohonynt. Nid yw pob gweithgaredd yn gynaliadwy ym mhob ardal o'r Parc Cenedlaethol neu'n gallu cael eu hymarfer â'r un lefel o ddwyster ym mhob man. Mae cyfyngiadau cyfreithiol, perchnogaeth tir, ymarferion rheoli, terrain, bioamrywiaeth leol a llawer o ystyriaethau eraill yn dictate defnydd cynaliadwy o'r adnodd hwn. Rheolwyr sy'n gyfrifol am gydweithio i gynnal a gwella cyfleoedd i fwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol er budd cymunedau lleol, ymwelwyr ac adnoddau'r Parc Cenedlaethol. Mae gan ddefnyddwyr y ddyletswydd i ymddwyn yn gyfreithlon a chyfrifol wrth fwynhau adnoddau'r Parc Cenedlaethol fel y cofnodwyd yn y Cod Cefn Gwlad a pholisiau cenedlaethol.



Cronfa Ddŵr Talybont



Cerdded yng nghanol y Bannau



Thema 3: Darparu cyfleoedd mynediad a hamdden awyr agored

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Rheoli'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) trwy roi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) ar waith</b>	Cynyddu % y rhwydwaith HTC sy'n hawdd ei ddefnyddio i 65% erbyn 2013.	APCBB	Awdurdodau Unedol, Tirfeddiannwyr, Grwpiau o Ddefnyddwyr, LIMLI, FfBMC
	Nodi llwybrau cylchol a llwybrau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith a'u rhoi ar waith.	APCBB	Awdurdodau Unedol, Tirfeddiannwyr, Grwpiau o Ddefnyddwyr, FfMLI, PTA, FfBMC
	Gwneud cynnydd tuag at wneud y Datganiad a Map Terfynol yn ddiweddar.	Awdurdodau Unedol	APCBB
<b>Gwella'r ddarpariaeth o fynediad at gefn gwlad a gwybodaeth amdano</b>	Darparu gwybodaeth a dargedwyd am fynediad at gefn gwlad mewn amrywiaeth eang o fformatau hygyrch.	APCBB	Grwpiau o Ddefnyddwyr, FfMLI, Awdurdodau Unedol, Cymunedau, Sefydliadau Twristiaeth, PTA
	Gwella mynediad at ddŵr mewndirol.	APCBB	AAC, Cymunedau Lleol, CCC, Awdurdodau Unedol, CCGC, Sefydliad Gwy ac Wysg, DP, DC
	Cynyddu ymwybyddiaeth o bobl ag anableddau a gofynion mynediad haws yn y cefn gwlad, a darpariaeth o'r rhain.	Grŵp Gweithredu Mynediad i'r Anabl	Grwpiau Mynediad Lleol, Tirfeddiannwyr, Grwpiau o Ddefnyddwyr



Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
	Cysylltu cludiant cyhoeddus i lwybrau sy'n cael eu hybu gan yr APCBB.	APCBB	Awdurdodau Unedol, Darparwyr Cludiant Cyhoeddus, STB
<b>Defnyddio cyfleoedd ariannu ac adnoddau i wella mynediad at gefn gwlad</b>	Archwilio'r ddarpariaeth ar gyfer gyrru oddi ar y ffordd yn y Parc Cenedlaethol.	APCBB	Awdurdodau Unedol, FfBMC
	Cynyddu'r defnydd o'r PC gan grwpiau wedi'u gwahardd.	APCBB	CCGC a Phartneriaid Darparu Eraill a Noddwyr, PTA
	Datblygu a chynnal mynediad ar warchodfeydd mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn berchen arnynt.	YBGau	Awdurdodau Unedol

### Gweithredoedd ychwanegol i'w hystyried

Parhau i osod cyfarpar newydd yn lle cyfarpar sydd eisoes yn bodoli fel bo angen gan ddilyn egwyddor yr opsiwn lleiaf cyfyngol lle bo hyn yn rhesymol ac ymarferol.
Parhau i adnewyddu arwyddion a mynegbyst neu osod rhai newydd fel bo angen, gan wella'r wybodaeth ar on fynegbyst lle bynnag bo hynny'n bosibl a phriodol.
Parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwell iechyd a lles i grwpiau wedi'u gwahardd o'r tu mewn a'r tu allan i ffin y Parc.



Chwith pellaf: Teithiau cerdded wedi'u tywys i bobl rhannol ddall  
Chwith: Trecio ger Llanddewi Nant Hodni



# Gweithredoedd â Blaenoriaeth: Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth

## Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Parc

### Pam fod hyn yn bwysig?

Nid yw rheolaeth lwyddiannus y Parc Cenedlaethol yn gyflawn heb ymdrechion i hybu dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth am y Parc Cenedlaethol, ei adnoddau a'i faterion ac arferion rheoli allweddol. Mae ail ddiben y Parc Cenedlaethol yn diogelu'r rôl hon.

Mae angen cyfathrebu i gasglu arian i gynnal a gwella bioamrywiaeth, harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol. Mae dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth yn hanfodol i hybu balchder lleol a nawws am le ac i gyfrannu at les cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn ffordd effeithiol o annog ymwelwyr i ddefnyddio'r Parc yn gynaliadwy. Gellir eu defnyddio i ddarlunio manteision microgeneradu trydan dŵr i'r gymuned ehangach, er enghraifft. Ym mhob achos mae cyfathrebu da a lledaenu gwybodaeth yn ymarferion gorau a ddefnyddir i gyfleu pwysigrwydd y Parc Cenedlaethol a'r cyfleoedd sydd ganddo ar gynnig i bawb.



Teithiau cerdded wedi'u tywys





Thema 4: Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Parc

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Defnyddio cyfleoedd ariannu ac adnoddau i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth</b>	Adolygu arwyddion wrth byrth a ffiniau wrth ddod i mewn i'r Parc Cenedlaethol a Geoparc a'u gadael a gwneud argymhellion.	APCBB	Awdurdodau Prifffyrdd, Tîrfeddiannwyr, Asiantaethau sy'n Bartneriaid
	Addysgu'r addysgwyr	APCBB	CGAAoedd, Ysgolion, CCC, YBGP, PTA/STB, DP
	Cynyddu cyfleoedd i wirfoddoli.	APCBB	CCC, Heddlu Dyfed-Powys, CGGC, CCGC
	Ailddatblygu Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol yn atyniad o'r radd flaenaf i ymwelwyr.	APCBB	YBGC
	Cydllynu adnoddau a darparu dehongliad, gwybodaeth ac addysg a ddarperir yn y PC a Geoparc.	APCBB, Awdurdodau Unedol, CCC, YG, DC, CCGC, YBGP, BBPS, YACP, Cadw, YBGau	PTA/STB, DP, Grwpiau Cymunedol, Cymdeithasau Hanes
	Datblygu partneriaethau dehongliadol lleol y Geoparc a'r rheiny yn Ne Cymru ac â Geoparciau eraill yn y DU.	APCBB	PTA/STB
	Datblygu cynnwys dehongliadol cyhoeddiadau a digwyddiadau ar thema'r Geoparc.	Grŵp Rheoli'r Geoparc	
	Parhau i ddatblygu a darparu'r Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Cymdeithasol a rhaglenni sy'n gysylltiedig.	APCBB	CCGC, Cymunedau'n Gyntaf, CCGC, Grwpiau Mynediad Anabl, Grwpiau Cymunedol
	Gweithio gyda chynrychiolwyr grwpiau lleiafrifol i godi ymwybyddiaeth o broses benderfynu a chyflawni gweithredoedd PC, a chyfrannu at hyn.	APCBB, CCGC, Grass Routes Cymru	



Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Darparu profiad i ymwelwyr sy'n rhagori ar ddisgwyliadau</b>	Darparu hyfforddiant a datblygiad i fusnesau a darparwyr gwybodaeth i sicrhau y darperir croeso o'r radd flaenaf, dehongliad, rhyngweithio a gwybodaeth o ansawdd uchel.	APCBB, Grŵp Rheoli'r Geoparc	Medrwn, PTA/STB
	Datblygu gwasanaethau ar y we sy'n darparu gwybodaeth glir, cyd-drefnu a phwysig cyn ymweliadau ac yn hybu cyfleoedd.	APCBB	PBB, PTCC, LICC, Darparwyr Twristiaeth, Awdurdodau Unedol, PTA/STB, DP, YBGau, Grŵp Rheoli'r Geoparc
<b>Hybu a datblygu teimlad o gyfrifoldeb a rennir ar gyfer y Parc Cenedlaethol a'r Geoparc</b>	Buddsoddi mewn gwasanaethau a chynnyrch gwyrdd i ddarparu dehongliad, addysg a gwybodaeth a dangos eu defnydd i'r cyhoedd.	APCBB	Pob Partner, Busnesau, Unigolion
	Cefnogi cymunedau wrth adrodd eu straeon a'u cysylltu fel rhanddeiliaid yn y Parc Cenedlaethol a'r Geoparc.	APCBB a Grŵp Rheoli'r Geoparc	PTA/STB, Grwpiau Cymunedol, Cymdeithasau Hanes
	Gweithio gyda'r rheiny nad ydynt wedi'u cysylltu'n llwyr eto - nodi rhwystrau a'u dymchweld a meithrin eiriolwyr.	APCBB	CCGC, Grwpiau Cymunedol
	Annog a hybu defnydd cynaliadwy o'r PC a Geoparc.	APCBB a Grŵp Rheoli'r Geoparc	CCGC, Awdurdodau Unedol, Darparwyr Cludiant, Darparwyr Twristiaeth, PTA/STB, DP
	Defnyddio cofnod daearegol y Geoparc i ddehongli newid yn yr hinsawdd ac annog newid o ran ymddygiad.	APCBB, Grŵp Rheoli'r Geoparc	
	Defnyddio Menter y Cymoedd Gwyrdd i gysylltu â chymunedau lleol a dangos sut gallant addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau.	APCBB, YCG, Grŵp Rheoli'r Geoparc	CCGC, Partneriaid Darparu



Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Datblygu cynllun â blaenoriaeth ar gyfer darparu gwybodaeth</b>	Archwilio a gwerthuso dehongliad, addysg a gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli.	APCBB	Awdurdodau Unedol, CCC, CCGC, YG, BWT, FLP, Grwpiau Cymunedol Ceunant Clydach
	Darparu gwybodaeth, cyfeiriadedd a dehongliad mewn safleoedd porth a phot mêl a nodwyd.	APCBB, Geoparc	PTA/STB, CCC, YACau, DC
	Cynyddu'r ddarpariaeth o ddehongliad, gwybodaeth ac addysg ddwyieithog.	APCBB, Geoparc	PTA/STB, CCC, YACau, DC
	Darparu mynediad at wybodaeth, dehongliad ac addysg am eu hamgylchedd i bobl leol a hybu'r buddion sydd ar gynnig.	APCBB, Geoparc	YACau, PTA, YACau
<b>Cefnogi agenda LICC ac ADCDF trwy ddarparu gwasanaethau addysg</b>	Cynnal a datblygu ymdrechion Addysg sydd eisoes yn bodoli yn y Parc Cenedlaethol a Geoparc.	APCBB, Grŵp Rheoli'r Geoparc	CCGC
<b>Sefydlu rhwydwaith/ is-grŵp ymchwil gwyddoniaeth amgylchedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol a'r Geoparc</b>	Ymgymryd ag adolygiad o ymchwil gwyddorau'r ddaear a nodi blaenoriaethau pellach ar gyfer cysylltu â sefydliadau ymchwil.	APCBB, Grŵp Rheoli'r Geoparc	CYOP
	Hybu cysylltiadau â chyrrff addysg drydyddol â diddordebau gwyddorau'r ddaear.	Grŵp Rheoli'r Geoparc	CYOP

### Gweithredoedd ychwanegol i'w hystyried

Datblygu, gyda phartneriaid, cynllun â blaenoriaethau ar gyfer cyhoeddiadau a darparu gwybodaeth.
Gweithio â'r holl ganolfannau sy'n wynebu'r cyhoedd yn y Parc Cenedlaethol i sicrhau bod neges y Parc Cenedlaethol yn rhan annatod o bwyntiau gwybodaeth a gwaith asiantaethau wrth ofalu am yr amgylchedd yn cael eu hybu.
Cefnogi agenda LICC ac ADCDF trwy ddarparu gwasanaethau addysg.

# Gweithredoedd â Blaenoriaeth: Cymunedau Cynaliadwy

## Adeiladu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy

### Pam fod hyn yn bwysig?

Mae gan awdurdodau parc cenedlaethol yn y DU ddyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol eu cymunedau lleol. Mae APCBB hefyd yn awdurdod cynllunio ar gyfer cymunedau o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol, yn darparu ei wasanaethau mewn cydweithrediad ag awdurdodau cynllunio lleol perthnasol. Fel yn achos blaenoriaethau eraill rheolwyr y Parc Cenedlaethol, mae materion cyffredinol fel newid yn yr hinsawdd, disbyddiad tanwydd ffosil, tai fforddiadwy a dirywiad economaidd yn effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau hyn. Mae'r goblygiadau negyddol sy'n gysylltiedig â'r materion hyn yn pennu bod cymunedau, awdurdodau unedol a phartneriaid darparu allweddol eraill yn cydweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy nawr yn fwy nag erioed.

Yn wir, mae Gweledigaeth ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru LICC yn annog awdurdodau parc cenedlaethol i weithio'n agos â'u cymunedau i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o fyw yn gynaliadwy o fewn cyd-destun dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys archwilio opsiynau tai fforddiadwy, isadeiledd cymunedol, cludiant, dyluniad adeiladau, patrymau anheddu a generadu ynni adnewyddadwy. Dylai'r opsiynau hyn annog bywiogrwydd a hyfywedd cymunedau, trefi a phentrefi'r Parc Cenedlaethol â datblygiad cynaliadwy yn ganlyniad terfynol. Ar yr un pryd, rhaid i randdeiliaid gadw'r nodweddion sy'n rhoi hunaniaeth ddiwylliannol neu naws am le i gymunedau'r Parc Cenedlaethol a'u gwella. Mae'r gweithredoedd sy'n dilyn yn gamau tuag at y dyfodol cynaliadwy hwn.



Marchnad y Gelli Gandryll



Gŵyl Leol



Thema 5: Adeiladu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Newid yn yr Hinsawdd, Disbyddu Tanwyddau Ffossil ac Allyriadau Carbon</b>			
<b>Annog a chefnogi mentrau sy'n cael eu harwain yn gymunedol sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd, disbyddu tanwyddau ffosil ac allyriadau ffosil ac yn adeiladu'r gallu i'w gwrthsefyll</b>	Darparu rhaglenni allgymorth i grwpiau lleol i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o gyfleoedd lleol ar gyfer adloniant, lleihau teithio ac allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â hyn.	APCBB, YCG	Grwpiau Cymunedol, CCGC, Awdurdodau Unedol, Darparwyr Twristiaeth
	Datblygu llif refeniw buddion cymunedol a chadwraeth trwy roi'r Strategaeth Goblygiadau Cynllunio ar waith, ynghyd â'r diwygiadau dilynol.	APCBB	Cymunedau Lleol, Awdurdodau Unedol
	Cynorthwyo â datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy priodol sy'n cynhyrchu deilliannau sydd o fudd i gymunedau lleol a'r amgylchedd lleol fel ei gilydd.	YCG, Cymunedau Lleol, Tirfeddiannwyr	APCBB, AAC, CCGC, PTA, DP
	Darparu gwybodaeth a chynghor i helpu i godi ymwybyddiaeth am newid yn yr hinsawdd, allyriadau carbon a disbyddiad tanwydd ffosil.	APCBB	CCGC, Grwpiau Cymunedol, CCGC
	Nodi ardaloedd addas i osod mwy o leoedd parcio yn benodol ar gyfer pobl anabl a rhoi hyn ar waith.	Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Prifffyrdd	Grwpiau Cymunedol, Grwpiau Mynediad Anabl, APCBB
	Darparu rhwydwaith cludiant fforddiadwy, hygyrch ac effeithiol sy'n diwallu anghenion trigolion ac ymwelwyr.	Awdurdodau Prifffyrdd, Consortia Cludiant	Grwpiau Cymunedol, APCBB
	Archwilio cynlluniau cludiant cynaliadwy ar gyfer pobl ysgol yn PCBB.	Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Prifffyrdd	Ysgolion Lleol, Grwpiau Cymunedol, APCBB



Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Annog a chefnogi mentrau sy'n cael eu harwain yn gymunedol sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd, disbyddu tanwyddau ffosil ac allyriadau ffosil ac yn adeiladu'r gallu i'w gwrthsefyll (parhad)</b>	Hybu beicio fel ffordd o deithio bob dydd a datblygu llwybrau beicio diogel.	Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Prifffyrdd	Grwpiau Cymunedol, APCBB
	Cydweithio â Chyswllt Ffermio i nodi prosiectau ynni cynaliadwy ar ffermydd a hybu'r rhain fel enghreifftiau o ymarfer gorau.	CLA, UAC, Cyswllt Ffermio, UCA, APCBB	Ffermwyr Lleol
	Nodi ffermwyr yn y Parc Cenedlaethol sy'n defnyddio ymarferion ffermio cynaliadwy a'u hybu fel enghreifftiau patrymol yn y Parc a thu hwnt.	CLA, UAC, Cyswllt Ffermio, UCA, Ffermwyr Lleol	APCBB
<b>Cronfa Datblygu Gynaliadwy</b>			
<b>Darparu Cronfa Datblygu Gynaliadwy sy'n cyflawni blaenoriaethau strategol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	Datblygu, a chefnogi trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, mentrau cludiant cynaliadwy cymunedol a ddyluniwyd i leihau'r ôl troed carbon.	Cymuned, Busnesau gan gynnwys Mentrau Cymunedol	APCBB, CCGC, Asiantaethau Eraill
	Datblygu, a chefnogi trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, mentrau cludiant cynaliadwy cymunedol gan gynnwys mynediad at leoliadau "llachar" i ymwelwyr.	Cymunedau, Busnesau	APCBB, CCGC, Asiantaethau Eraill
	Datblygu, a chefnogi trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, marchnata bwyd cynaliadwy a hybu a defnyddio cynnyrch lleol.	Cymunedau, Busnesau	APCBB, CCGC, Asiantaethau Eraill
	Datblygu, a chefnogi trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, prosiectau a ddyluniwyd i ddarparu mynediad at ddŵr sy'n anfalaen i'r amgylchedd.	Cymunedau, Busnesau	APCBB, CCGC, Asiantaethau Eraill, DP
	Cynhyrchu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion cynaliadwyedd sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a mesurau arloesol eraill a ddyluniwyd i leihau effaith ecolegol cymunedau ar draws y Parc Cenedlaethol.	Cymunedau, Busnesau	APCBB, CCGC, Asiantaethau Eraill



Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Cynhyrchu Bwyd yn Lleol</b>			
<b>Cefnogi cynhyrchu bwyd yn lleol</b>	Annog gerddi marchnad a marchnadoedd lleol.	Partneriaethau CDG	APCBB, Undebau Ffermio, Busnesau Lleol, PTA
	Cefnogi datblygiad rhandiroedd.	Cymunedau Lleol	APCBB, YCG, CDG, Awdurdodau Unedol
<b>Adeiladu Balchder Cymunedol a Naws am Le</b>			
<b>Cefnogi mentrau sy'n gwella balchder cymunedol yn nynodiad y Parc Cenedlaethol a budd ohono</b>	Hybu'r defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, eilaidd a gwastraff i ddiwallu'r angen am garreg adeiladu lleol le bo hynny'n gydnaws ag amcanion cadwraeth statudol y Parc Cenedlaethol a'i bolisiau cynllunio perthnasol.	APCBB	SPBB, Waliau Llangynidr
	Gwella a hwyluso'r gwaith o osgoi a thynnu sbwriel trwy weithredoedd cymunedol, yn enwedig o afonydd.	Cymunedau Lleol, CCD	Awdurdodau Unedol, APCBB
	Ymchwilio i opsiynau i gael gwared ar bob dodrefn stryd diangen i gyfyngu ar annibendod gweledol.	Cymunedau Lleol, Awdurdodau Unedol	APCBB
	Darparu rhaglenni allgymorth cymunedol fel Croesi Ffiniau'r Parc sy'n cynyddu gwerth dynodiad y PC a budd ohono.	APCBB	CCGC, PTA/ STB, Partneriaid Darparu Eraill
<b>Cefnogi mentrau sy'n gwella balchder cymunedol o ran dynodiad y Parc Cenedlaethol a budd ohono</b>	Darparu lleoliadau gwaith, gwirfoddoli, cysgodi gwaith a rhaglenni sgiliau eraill yn y PC.	APCBB	CCGC, CCGC, Gwasanaethau Ieuenticid a Throseddwy'r Ifanc, Darparwyr Hyfforddiant wedi'u Hachredu





Gwibdaith cerddwyr anabl



Gŵyl Fwyd Bannau Brycheiniog

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
Adeiladu Balchder Cymunedol a Naws am Le (parhad)			
Cefnogi mentrau sy'n gwella balchder cymunedol o ran dynodiad y Parc Cenedlaethol a budd ohono (parhad)	Dylunio a gweithredu mentrau adnewyddu cymunedol sy'n hybu gwahanolrwydd lleol, teimlad o gymuned a naws am le.	Cymunedau	APCBB, Partneriaethau CDG, CGCwyr
	Hybu cynnydd o ran cyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol i wella gwybodaeth a sgiliau lleol, fel ffermio traddodiadol isel ei effaith, sgiliau rheoli tir, diwylliant a hanes lleol.	Cymunedau Lleol, Awdurdodau Unedol, LEADER+, CLA, UAC, UCA, CFFI	APCBB, Partneriaethau CDG, CGCwyr, YACau, Cadw, CBHC, PTA/STB
	Annog prosiectau sy'n hybu teimlad o gymuned a naws am le, gan bwysleisio gwahanolrwydd, diwylliant a hanes lleol.	YACau, Cadw, CBHC, APCBB	Cymunedau Lleol, Awdurdodau Unedol, CDG, Geoparc, PTA/STB
Darparu Cynllun Datblygu Lleol cadarn			




Warden y Parc yn hyfforddi gwirfoddolwyr



Gŵyl Jazz Aberhonddu

### Gweithredoedd Ychwanegol i'w Hystyried

Monitro effeithiau'r Geoparc ar economi, amgylchedd a lles cymunedol.
Datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwaith cysylltu â'r gymuned, gan annog datblygiad prosiectau Geoparc pob cymuned.
Datblygu cysylltiadau a chydweithio trwy glystyrau Geoparc a grwpiau cymunedol.
Hwyluso ymweliadau cyfnewid â chyrchfannau tebyg - yn enwedig Geoparciau eraill - annog "Geo-gyfeillio" os yw'n briodol.
Defnyddio prosesau TGCh i alluogi cyfnewid gwybodaeth a syniadau rhwng busnesau a chymunedau Geoparc.
Sicrhau bod gwybodaeth am safleoedd Geoparc â mynediad haws ar gael yn rhwydd.
Cefnogi prosiectau sy'n dilyn egwyddorion cynaliadwyedd, h.y., a) cynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb, b) diogelu'r amgylchedd yn ddiogel, c) defnydd doeth o adnoddau naturiol a ch) cynnal a chadw lefelau uchel a sefydlog o dwf economaidd a chyflogaeth.
Gweithio gyda chymunedau gwledig i sefydlu mecanwaith i hybu eu hardaloedd eu hunain.



# Gweithredoedd â Blaenoriaeth: Datblygu Cynaliadwy

## Datblygu economaidd cynaliadwy

### Pam fod hyn yn bwysig?

Mae cyflwr y Parc Cenedlaethol wedi'i gysylltu yn annatod â lles ei gymunedau; mae ei hyfywedd tymor hir yn dibynnu ar fywiogrwydd parhaus cymunedau lleol a chefnogaeth barhaus y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol, ac yn ymweld ag ef. O'r herwydd, dylai dynodiad y Parc Cenedlaethol ddod â budd i'r economi lleol a chymunedau lleol mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy ac sy'n gweithio i gadw a gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Daw hyn â budd i bawb.

Mae amrywiaeth o fusnesau yn gweithredu yn y Parc Cenedlaethol. Mae llawer o'r rhain yn ystyried effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, disbyddu tanwyddau ffosil a newidiadau eraill er mwyn ceisio dod yn fwy cynaliadwy ac â mwy o allu i wrthsefyll newidiadau yn y dyfodol. Er ei bod yn ymddangos bod y grymoedd hyn yn rhwystro datblygiad yn y dyfodol, gallant hefyd gael eu gweld fel cyfleoedd i arloesi sy'n helpu i gyflawni dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol: datblygu microgeneradu ynni adnewyddadwy,

creu marchnadoedd arbenigol ar gyfer cynnyrch amaethyddol cynaliadwy, manteisio ar gynnyrch â brand y Parc Cenedlaethol, neu ddylunio adeiladau cynaliadwy, er enghraifft.

Mae twristiaeth yn gydran hanfodol o'r economi lleol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n croesawu 3.6 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Ond, ynghyd â buddion economaidd, gall twristiaid greu pwysau ychwanegol ar adnoddau'r Parc Cenedlaethol a chymunedau lleol y tu hwnt i'r rheiny a achosir gan rymoedd eraill o newid, fel cynnydd o ran erydiad llwybrau troed ac allyriadau carbon. Yna bydd angen i reolwyr weithio gyda busnesau twristiaeth a darparwyr gweithgareddau i leihau effeithiau gymaint â phosibl wrth gynyddu'r buddion lleol. Mae busnesau twristiaeth lleol, mewn cydweithrediad ag APCBB a'r Geoparc, wedi bod yn gwneud camau bras ymlaen wrth ddatblygu rhwydweithiau cludiant cynaliadwy, creu cadwynau cyflenwi lleol, buddsoddi mewn cymunedau lleol a hybu datblygiad economaidd cynaliadwy. Bydd gweithredoedd yn y Cynllun hwn yn parhau i wella ar yr ymdrechion hyn.



Canol tref Aberhonddu



Y Gelli Gandryll

Thema 6: Datblygu Economaidd Cynaliadwy

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Datblygu a Chefnogi Twristiaeth Gynaliadwy</b>			
<b>Galluogi gwell broses ar gyfer ymwelwyr</b>	Rhoi strategaethau twristiaeth gweithgaredd ar waith o fewn sensitifedd amgylcheddol.	APCBB, CSP, Sustrans, BHS, Clystyrau Busnes	FLP
	Ceisio arian ar gyfer strategaeth Twristiaeth Dreftadaeth a Diwylliannol.	APCBB, TBB	YACau, Cadw, CBHC, PTA, STB
	Hybu'r defnydd o fwyd lleol i fusnesau ac ymwelwyr.	PTCC, Partneriaeth Bwyd-Amaeth, APCBB, Medrwn, Adventa, Gallu, Glasu	Undebau Ffermio, Busnesau Lleol, PTA/Canolfan NH
	Gwireddu potensial twristiaeth Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn llawn wrth gadw a gwella ei lleoliad deniadol.	DP	APCBB, Awdurdodau Unedol, Sustrans, PTA/STB
<b>Datblygu gweithio mewn partneriaeth gyda busnesau</b>	Datblygu clystyrau busnes ar sail ardal leol a thema dan raglen COLLABOR8.	APCBB, TBB, Clystyrau Busnes	
	Cynnal a datblygu rhaglenni hyfforddiant busnes.	APCBB, Medrwn/ PTCC, Gallu	PTA
	Rhoi rhaglenni tystysgrif amgylcheddol Ambassador a Charter Rhan 2 ar waith.	APCBB, Geoparc	
<b>Gwella effaith gynaliadwy economaidd twristiaeth</b>	Ceisio arian i ddatblygu strategaeth farchnata a'i roi ar waith.	TBB, APCBB, Awdurdodau Unedol	PTA/STB, PRhCBC, DP
	Annog ymwelwyr dydd i aros am gyfnod hwy a gwario mwy.	PCCBB	PTA/STB, PRhCBC, DP
<b>Monitro effeithiau twristiaeth</b>	Monitro dangosyddion twristiaeth gynaliadwy y cytunwyd amynt.	APCBB, Grŵp Rheoli'r Geoparc, PCCBB	
<b>Annog gwell defnydd o gludiant cynaliadwy gan ymwelwyr</b>	Trefnu Partneriaeth Cludiant Ymwelwyr.	APCBB, VTP	
	Cynnal ymrwymiad i Fws y Bannau.	APCBB, VTP	
	Annog ymwelwyr i ddefnyddio cludiant cyhoeddus ar ddyddiau'r wythnos.	APCBB, VTP	



Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
<b>Cynnal a datblygu gweithio mewn partneriaeth</b>	Trefnu Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy a Chynhadledd Twristiaeth.	PCCBB	
	Trefnu Grŵp Rheoli a Bwrdd Partneriaeth y Geoparc.	Partneriaeth y Geoparc	
	Gwneud cais am ailddilysu statws Geoparc Ewropeaidd.	Partneriaeth y Geoparc	
	Gwneud cais i Ewroparc am adnewyddu statws y Siarter.	APCBB	
<b>Ffermio</b>			
<b>Cefnogi ffermwyr â newidiadau sy'n effeithio ar ymarferion a busnesau fferm</b>	Cefnogi ffermwyr â newidiadau o ran arferion ffermio, yn enwedig pan fyddant yn golygu datblygu cynnyrch lleol arbenigol (e.e., prosesu bridiau organig traddodiadol ar fferm).	Ffermwyr, CFFI, Cymunedau Lleol, Partneriaethau CDG	APCBB, Awdurdodau Unedol, Undebau Ffermio, PONT
	Hybu cynnydd yng nghaffaeliad bwyd a gynhyrchwyd yn lleol gan ysgolion, ysbytai a gwasanaethau cyhoeddus eraill.	Awdurdodau Unedol, Partneriaethau CDG	Undebau Ffermio, Busnesau Lleol, APCBB
	Ymchwil ac opsiynau cefnogi ar gyfer marchnata cynnyrch/bwyd lleol.	Awdurdodau Unedol, Partneriaethau CDG	Undebau Ffermio, Busnesau Lleol, APCBB, PTA
	Gweithio gyda ffermwyr sydd â diddordeb i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau sy'n manteisio ar statws y Parc Cenedlaethol.	CLA, UAC, Cyswllt Ffermio, UCA, CFFI, APCBB	Ffermwyr Lleol, Busnesau Lleol, Darparwyr twristiaeth
	Cefnogi ffermwyr sy'n dymuno arallgyfeirio i feysydd nad ydynt yn amaethyddol.	Partneriaethau CDG	Awdurdodau Unedol, Undebau Ffermio, CFFI, APCBB
<b>Economiâu Lleol</b>			
<b>Cefnogi economïau lleol i gael mwy o allu i wrthsefyll newid</b>	Hybu cyfleoedd busnes a strategaethau adfywio i gynyddu'r nifer o swyddi o ansawdd da i bobl lleol.	Awdurdodau Unedol, Cymunedau Lleol	LICC, APCBB, PTA



Tyrbin trydan dŵr, Cronfa Ddŵr Talybont

Is-thema/Maes Ffocal	Gweithredoedd	Sefydliad(au) Arweiniol	Partneriaid
	Datblygu ffrydiau ariannu newydd ac arwyddbostio at arian allanol at ddefnydd busnesau sy'n mynd ar drywydd prosiectau cynaliadwyedd.	APCBB, CDG, Partneriaethau Adnewyddu Sirol ar gyfer Powys, Sir Fynwy, Partneriaeth Adnewyddu Merthyr a'r Cymoedd	PTA

### Gweithredoedd Ychwanegol i'w Hystyried

Mewn partneriaeth â busnesau lleol, rhoi ar waith prosiectau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli gan weithio ar: beicio, beicio mynydd, merlota, Geoparc, pysgota, bwyd/diod leol, a threftadaeth a diwylliant.
Hybu celf a chrefft i ymwelwyr trwy ddeunydd marchnata/gwybodaeth i ymwelwyr.
Cynhyrchu cyfarwyddyd ymarferol i gymunedau a mentrau am sut i ddatblygu cynnyrch sy'n gynaliadwy, yn addas i'r diben, yn manteisio ar farchnadoedd newydd ac yn arloesol.
Parhau i fuddsoddi mewn arolygon ymwelwyr a Monitor Gweithgaredd Economaidd Twristiaeth Scarborough (STEAM).
Sefydlu system i rannu deallusrwydd busnes-i-fusnes.
Parhau i gynnal cronfa ddata ddiweddar o bob menter, busnes a rhanddeiliad, gan sefydlu cyfleuster allrwyd ar gyfer pob busnes a chymuned ac annog busnesau i adeiladu rhwydau gwe.
Adolygu'r amrywiaeth presennol o wefannau a sefydlu porth a seiliwyd ar <a href="http://visitbreconbeacons.com">visitbreconbeacons.com</a> â chysylltiadau â gwefannau eraill perthnasol.
Parhau i farchnata Bannau Brycheiniog fel cyrchfan twristiaeth gynaliadwy.
Parhau i ddefnyddio Canllaw Ymwelwyr Bannau Brycheiniog fel cymorth i farchnata.
Parhau â'r rhaglen o werthusiadau cymunedol fel ffordd o gysylltu â'r gymuned.
Parhau i wella gwybodaeth o fewn cyrchfan ar gyfer y sector cyhoeddus.
Datblygu technegau Rheolaeth Ansawdd Integredig (IQM) a seiliwyd ar dwristiaeth i gysylltu â chymunedau lleol.
Cynllunio gweithgareddau marchnata o amgylch delweddau dilys a gweithgareddau cynaliadwy.
Cynnal a datblygu prosiectau cynhwysiant cymdeithasol, yn enwedig trwy Mosaic, i osgoi sefyllfa lle mae'r Parc yn gyrchfan allgynhwysol.



## Gweithredoedd Ychwanegol i'w Hystyried (parhad)

Annog a hwyluso datblygiad pellach o ran clystyrau thematig o fusnesau.
Datblygu strwythurau sefydliadol i ddiwallu anghenion y cyrchfan sy'n newid.
Annog busnesau i gael cyflenwadau o ffynonellau lleol trwy ddatblygu cyfeiriadur ar y we.
Sefydlu allrwyd ar gyfer gwell cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn barhaus â phob rhanddeiliad.
Annog y cysyniad o "gyrchfan hygyrch" â hyfforddiant priodol yn cael ei gynnis i'r sector preifat a'r sector cyhoeddus yn datblygu isadeiledd a gwybodaeth mewn perthynas â mynediad.
Annog mwy o dwristiaeth tu allan i'r tymor arferol a thymor y gaeaf sy'n gydnaws â chadwraeth.
Cynhyrchu amserlen cludiant ar draws y Parc Cenedlaethol, sy'n hawdd i ymwelwyr ei defnyddio, a'i gyhoeddi yn flynyddol.
Datblygu, argraffu a dosbarthu gwybodaeth am "Beth i'w wneud wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus".
Datblygu Gwefan Cludiant Cynaliadwy annibynnol.
Datblygu llyfrynnau teithiau cerdded sy'n gysylltiedig â bysys a/neu drenau.
Marchnata'r defnydd o gludiant cyhoeddus trwy'r wasg gerdded.
Gweithio'n agos â rheolwyr llwybrau troed pellter hir.
Datblygu cysylltiadau â'r diwydiant tacsis a chwmnïau bws.
Gweithio gyda rheolwyr cyfnewidfeydd/pyrth i ddatblygu gwybodaeth i ymwelwyr yn y manau hyn.
Mynychu cynadleddau a chyfarfodydd cyd-drefnu EGN/UNESCO yn rheolaidd a chyfrannu atynt.
Cynnig cynnal cartref i Gyfarfod Pwyllgor Cyd-drefnu EGN yn 2011.
Datblygu perthynas gweithio agos â Geoparciau eraill yn enwedig Geoparciau newydd yng Nghymru.
Adolygu cylch gorchwyl ac aelodau'r Geoparc ar adegau y cytunwyd arnynt.
Datblygu perthynas rhwng y Geoparc a Phartneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy Bannau Brycheiniog.
Rhoi Gŵyl Geoparciau Ewropeaidd ar waith yn flynyddol.
Sicrhau bod holl waith y Geoparc yn integredig â'r Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy a Siarter Ewrop ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy.
Ceisio barnau ar yr angen i gael mwy o gefnogaeth ar gyfer siopau fferm neu gyfnewidfeydd cynhyrchwyr.

# Atodiad: Acronymau

AAC	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	FFBMC	Ffederasiwn Beiciau Modur Cymru
ADP	Arolwg Daearegol Prydain	GGA	Gwasanaethau Gwybodaeth Aberhonddu
APCBB	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	GGB	Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth
BHS	Cymdeithas Geffylau Prydain	LEADER+	Liaison Entre Actions de Développement de l'Économie Rurale
C3W	Climate Change Cymru	LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
CBHC	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	PCCBB	Partneriaeth Cludiant Cynaliadwy Bannau Brycheiniog
CCC	Comisiwn Coedwigaeth Cymru	PONT	Pori Natur a Threftadaeth
CCD	Cadwch Cymru'n Daclus	PRhCBC	Parc Rhanbarthol y Cymoedd Blaenau'r Cymoedd
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	PTA	Prosiect Tirweddau Anghofiedig
CDG (Cymru)	Cynllun Datblygu Gwledig (Cymru)	PTCC	Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru
CFfl	Clybiau Ffermwyr Ifanc	STB	Safle Treftadaeth y Byd
CGGC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	TBB	Twristiaeth Bannau Brycheiniog
CGCwyr	Cydlynwyr Gwirfoddolwyr Cymunedol	UAC	Undeb Amaethwyr Cymru
CG	Cymoedd Gwyrdd	UAC	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
CHI	Cymdeithas Hostelau Ieuencid	YACP	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys
CLA	Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad	YBGau	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt
CRhPC	Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol	YG	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
CSP	Cyngor Sir Powys		
CYAC	Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru		
CYOP	Cymdeithas Ymchwil Ogofâu Prydain		
DC	Dŵr Cymru		
DP	Dyfirffyrdd Prydain		



# Partneriaid sy'n Cyfrannu



Adfer Ban a Chwm  
All Bike Engineering Cyf  
Clwb All Wheel Drive  
Auto Cycle Union  
Cymdeithas Porwyr y Mynydd Du  
Cyngor Tref Aberhonddu  
Twristiaeth Bannau Brycheiniog  
Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol

Uwch Ranbarth Twristiaeth  
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (CPRW)  
Cerddwyr Anabl  
Grass Routes  
Ffermydd Llanerchindda  
Cyngor Cymuned Llangadog  
Fforwm Mynediad Lleol

Trail Rider Fellowship  
Cyngor Cymuned Trallong, Penpont a Llanfihangel Nant Bran  
Cymdeithas Clybiau Modur Cymru  
Cyngor Cymuned Bro Grwyneby  
Cyngor Tref Ystradgynlais